Cynllun Rheoli
Safle Treftadaeth y Byd

Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyflwynir y Cynllun Rheoli hwn er cof am y diweddar Arnold J. Taylor CBE, DLitt, FBA, hanesydd. Arweiniodd yr ymchwil a wnaethpwyd ganddo dros dri deg saith o flynyddoedd at gydnabod pwysigrwydd Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd ar raddfa ryngwladol.

Cynnwys, Rhagair
a Rhagymadrodd

Ochr arall: Castell Biwmares a ddechreuwyd ym 1295, oedd y castell olaf a'r mwyaf a godwyd gan y Brenin Edward I yng ngogledd Cymru.

Uchod: Mae gwaith diogelwch diweddar yng Nghastell Biwmares wedi cynnwys darparu rheiliau newydd ar rodfeydd y muriau.

Cynnwys

Rhagair

Rhagymadrodd

Statws a Chynnwys y Safle

Arysgrif, Pwysigrwydd a Dilysrwydd

Crynodeb o'r Datganiad Pwysigrwydd
Crynodeb o'r Datganiad Dilysrwydd

Diben y Cynllun Rheoli

Strwythur y Cynllun Rheoli

Rhan 1: Disgrifiad o'r Safle

Castell Biwmares

B1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

B1.1.1 Lleoliad
B1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

B1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

B1.2.1 Archeoleg
B1.2.2 Hanes
B1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

B1.3 Amgylchedd

B1.3.1 Daeareg a Thopograffeg
B1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt
B1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

Bl.4 Diddordebau

B1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Castell a Muriau Tref Caernarfon

CA1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

CA1.1.1 Lleoliad
CA1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

CA1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

CA1.2.1 Archeoleg
CA1.2.2 Hanes
CA1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

CA1.3 Amgylchedd

CA1.3.1 Daeareg a Thopograffeg
CA1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt
CA1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

CA1.4 Diddordebau

CA1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Castell a Muriau Tref Conwy

CO1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

CO1.1.1 Lleoliad
CO1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

CO1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

CO1.2.1 Archeoleg
CO1.2.2 Hanes
CO1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

CO1.3 Amgylchedd

CO1.3.1 Daeareg a Thopograffeg
CO1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt
CO1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

CO1.4 Diddordebau

CO 1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Castell Harlech

H1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

H1.1.1 Lleoliad
H1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

H1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

H1.2.1 Archeoleg
H1.2.2 Hanes
H1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

H1.3 Amgylchedd

H1.3.1 Daeareg a Thopograffeg

H1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt
H1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

H1.4 Diddordebau

H1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Safle Treftadaeth y Byd

1.4.2 Safle Treftadaeth y Byd: Economi a Thwristiaeth
1.4.3 Safle Treftadaeth y Byd a'r Gymuned

Rhan 2: Pwysigrwydd a Gweledigaeth

Safle Treftadaeth y Byd

2.1 Datganiad Pwysigrwydd

2.1.1 Adeiladwyd pob un ar gyfer y Brenin Edward I, un o arweinwyr milwrol pwysicaf ei ddydd
2.1.2 Ffurfient raglen o adeiladu cestyll brenhinol o'r pwysigrwydd mwyaf
2.1.3 James of St. George, pensaer milwrol mwyaf yr oes, oedd yn gyfrifol am gynllunio a rheoli'r prosiect
2.1.4 Fel grŵp mae'r cestyll a'r trefi muriog yn dan gos y bensaernïaeth filwrol a'r crefftwaith mewn carreg mwyaf modern ar ddiwedd y 13eg ganrif ac yn dangos sut yr arferai Edward I ei bŵer mewn tiriogaeth wedi'i chyfeddiannu
2.1.5 Fel gwaith brenhinol mae dogfennaeth gyfoes y cestyll a muriau'r trefi wedi'i chadw'n ofalus
2.1.6 Mae'r cestyll yn cyfuno ymdeimlad gwych o bŵer â phrydferthwch hynod o ran eu hadeiladwaith a'u ffurf, ac maent yn cydweddu i'r dim â'u diben ac â'r ardal naturiol oddi amgylch
2.1.7 Er iddynt fynd trwy gyfnodau o esgeulustod wrth i'w pwysigrwydd milwrol leihau, mae'r wladwriaeth wedi gofalu am bob un o'r ped war castell a muriau'r ddwy dref gysylltiedig yn ystod yr hanner can mlynedd i'r can mlynedd diwethaf

2.2 Statws Cadwraeth y Safle

2.2.1 Meini Prawf ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd
2.2.2 Statws Hanesyddol yng Nghymru a'r DU
2.2.3 Bygythiadau Posibl
2.2.4 Cyfleoedd
2.2.5 Diffiniad o'r Adnoddau a'u Ffiniau

2.3 Gwerthuso Nodweddion y Safle

2.3.1 Gwerthoedd Diwylliannol yr Adeiladwaith Hanesyddol
2.3.2 Y Gwerthoedd Diwylliannol sy'n gysylltiedig â'r Safle
2.3.3 Gwerthoedd cyfoes y Safle o ran yr Economi a'r Defnydd a Wneir Ohono
2.3.4 Y Cyd-destun Polisi a Chynllunio Presennol

2.4 Amcanion ac Opsiynau Rheoli

2.4.1 Amcanion Rheoli Cyffredinol
2.4.2 Y Weledigaeth ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd a'i Leoliad
2.4.3 Y Ffactorau sy'n dylanwadu ar y dull Rheoli
2.4.4 Opsiynau Rheoli
2.4.5 Cadw'r Adeiladwaith Hanesyddol
2.4.6 Cadw Cofnodion
2.4.7 Cadw'r Lleoliad
B2.4.7 Castell Biwmares: Cadw'r Lleoliad
CA2.4.7 Castell a Muriau Tref Caernarfon: Cadw'r Lleoliad
CO2.4.7 Castell a Muriau Tref Conwy: Cadw'r Lleoliad
H2.4.7 Castell Harlech: Cadw'r Lleoliad
2.4.8 Defnydd
2.4.9 Astudio ac Ymchwil
2.4.10 Addysg a Dehongli
2.4.11 Cysylltiadau Cymunedol

2.5 Atodiadau i Ran 2

2.5.1 Polisïau Cenedlaethol: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
2.5.2 Polisïau Cynllunio Lleol: Ynys Môn
2.5.3 Polisïau Cynllunio Lleol: Gwynedd
2.5.4 Polisïau Cynllunio Lleol: Conwy
2.5.5 Polisïau Cynllunio Lleol: Parc Cenedlaethol Eryri

Rhan 3: Argymhelliad ar gyfer Rheoli'r Safle yn Gyffredinol

3.1 Prosiectau

3.1.1 Gweithgarwch Cydlynu
3.1.2 Nodi a Dosbarthu Prosiectau

Pob Heneb yn Safle Treftadaeth y Byd

W3.1.2 Cofrestr o'r Prosiectau
W3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Castell Biwmares

B3.1.2 Cofrestr o'r Prosiectau
B3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Castell a Muriau Tref Caernarfon

CA3.1.2 Cofrestr o'r Prosiectau
CA3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Castell a Muriau Tref Conwy

CO3.1.2 Cofrestr o'r Prosiectau
CO3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Castell Harlech

H3.1.2 Cofrestr o'r Prosiectau
H3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Llyfryddiaeth

Llyfryddiaeth Ddethol a Chofrestr o Ddeunydd Nas Cyhoeddwyd

Cydnabyddiaethau

Mapiau a Chynlluniau Ychwanegol

Cofnod Diwygiadau

Rhestr Lluniau

Dalen wahanu (Cynnwys, Rhagair a Rhagymadrodd) **Castell Biwmares**

Map Rhagymadrodd **Cestyll Carreg Tywysogion Gwynedd**

Dalen wahanu (Rhan 1: Disgrifiad o'r Safle) **Castell Caernarfon**

Map 1 **Ynys Môn, Sir Gaernarfon a Sir Feirionydd o dan Edward 1**

Diagram 1.2.2 **Ffynonellau Llafur**

Diagram 1.4.2 **Niferoedd yr Ymwelwyr â Safle Treftadaeth y Byd 1986-2004**

Dalen wahanu (Rhan 2: Pwysigrwydd a Gweledigaeth) **Castell Conwy**

Diagram 2.2.2 **Trefniadaeth Rheoli Safle Treftadaeth y Byd**

Dalen wahanu (Rhan 3: Rheoli'r Safle yn Gyffredinol) **Castell Harlech**

Diagram 3.1.1 **Gweithgaredd Cydlynu**

Ffotograff B1.1.1 **Castell Biwmares o'r awyr**

Ffotograff CA1.1.1 **Castell Caernarfon a Muriau'r Dref o'r awyr**

Ffotograff H1.1.1 **Castell Harlech o'r awyr**

Map B2.4.7 **Castell Biwmares**

Map CA2.4.7 **Castell Caernarfon a Muriau'r Dref**

Map CO2.4.7 **Castell Conwy a Muriau'r Dref**

Map H2.4.7 **Castell Harlech**

Dalen wahanu (Llyfryddiaeth a Chydnabyddiaethau) **Muriau Tref Caernarfon**

Dalen wahanu (Mapiau a Chynlluniau Ychwanegol) **Muriau Tref Conwy**

Cynllun B.1.2 **Castell Biwmares**

Cynllun CA.1.2.1 **Castell Caernarfon a Muriau'r Dref**

Cynllun CO.1.2 **Castell Conwy**

Cynllun CO.1.2.1 **Castell Conwy a Muriau'r Dref**

Cynllun H.1.2 **Castell Harlech**

Rhagair

Ym 1984 cadarnhawyd Cytundeb Treftadaeth y Byd gan y Deyrnas Unedig a dwy flynedd yn ddiweddarach roedd Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd ymhlith y saith safle diwylliannol a naturiol cyntaf yn y DU i'w harysgrifo ar Restr Treftadaeth y Byd. Mewn un Safle Treftadaeth y Byd yn unig mae gennym bedwar castell gwych sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg a dwy gyfres o furiau trefi sydd ymron yn gyflawn, a adeiladwyd gan un o benseiri milwrol canoloesol amlycaf yr oes. Yn 2000, ychwanegwyd safle arall o Gymru i Restr Treftadaeth y Byd, sef Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, un o'r enghreifftiau gorau yn y byd o dirwedd a grëwyd gan y diwydiant glo a haearn ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau cenedlaethol feddu ar drefniadau rheoli priodol i ddiogelu arwyddocâd eu Safleoedd Treftadaeth y Byd a chyflawnir hyn yn y DU drwy gyfrwng cynlluniau rheoli fel y cynllun rheoli hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i weithredu pob agwedd ar Gytundeb Treftadaeth y Byd ac rydym yn ymfalchïo yn ein cyfrifoldeb, a weithredir drwy Cadw, o ddiogelu a chadw'r pedwar castell yng Nghaernarfon, Conwy, Harlech a Biwmares ynghyd â muriau tref Caernarfon a Chonwy, sef Safle Treftadaeth y Byd, a'u cyflwyno i'r cyhoedd. Yn ganolbwynt i bedair o'n trefi hanesyddol pwysicaf, mae'r henebion hyn yn eithriadol o bwysig i economi gogledd Cymru, gan ddenu dros hanner miliwn o ymwelwyr y flwyddyn gyda chwarter ohonynt yn dod o dramor. Yn ystod tymor yr haf maent yn ganolbwynt i amrywiaeth o ddigwyddiadau, o gyngherddau operatig mawreddog yng Nghastell Caernarfon, digwyddiadau ail-greu milwrol a pherfformiadau theatrig, i ddigwyddiadau cymunedol lleol.

Mae cyfrifoldeb i edrych ar ôl yr henebion hyn yn ôl y safonau uchaf yn mynd law yn llaw â Statws Treftadaeth y Byd. Mae rhan y Llywodraeth yn y gwaith o'u cynnal a'u cadw yn dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan alwyd ar y pensaer, Anthony Salvin, i drefnu gwaith atgyweirio brys yng Nghastell Caernarfon er mwyn atal rhannau o'r heneb rhag dymchwel ar y briffordd a arweiniai i'r cei a'r rheilffordd newydd. Ar adegau gwahanol yn ystod y ganrif a hanner dilynol, mae rhaglenni mawr o waith atgyfnerthu'r gwaith maen wedi'u cynnal, a'r un fwyaf diweddar oedd y gwaith ar hyd rhannau de-orllewinol muriau tref Conwy.

Ond mae cadwraeth yn ymestyn y tu hwnt i adeiladwaith yr henebion hyn: mae lleoliadau'r cestyll a'u cyffiniau y tu mewn a'r tu allan i furiau'r dref yr un mor bwysig. Yn yr ardal hon mae awdurdodau lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn chwarae rhan hanfodol yn y broses gynllunio. Hwy sydd â'r cyfrifoldeb dros ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion beunyddiol cymunedau lleol a'r angen i gadw cyfanrwydd hanesyddol lleoliad henebion Treftadaeth y Byd.

Croesawaf y cyfle a gynigir gan y cynllun hwn i ni weithio gyda'n partneriaid, sef yr awdurdodau lleol a'r Parc Cenedlaethol, tirfeddianwyr, cymunedau lleol, cwnstabliaid y cestyll a sefydliadau amrywiol eraill sydd â diddordeb, wrth fynd i'r afael â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â gwaith diogelu'r henebion hyn sy'n bwysig yn rhyngwladol yn yr hir dymor a mwynhad y cyhoedd ohonynt.

Alun Pugh AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon

Cestyll Carreg Tywysogion Gwynedd
G
W Y N E D D
Deganwy
Ewlo
Dolbadarn
Dolwyddelan
Dinas Emrys
Dinas Brân
Cricieth
Deudraeth
Carn Fadryn
Cwm Prysor
Carndochan
Castell y Bere
Y Trallwng
Dolforwyn
Tiroedd teulu Gwynedd
Tiriogaethau dan reolaeth Llywelyn ap Gruffudd 1267
Castell a adeiladwyd o garreg gan Dywysogion Gwynedd cyn 1277
Castell Cymreig arall a adeiladwyd o garreg
Castellnewydd Emlyn
Dinefwr
Dryslwyn
Pont Senni
Plas Baglan
Machen
0 15 30 Cilometrau
0 10 20 Milltiroedd

Rhagymadrodd

Statws a Chynnwys y Safle

Un o ganlyniadau penderfyniad Edward I Brenin Lloegr, a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd 1276, i wynebu Llywelyn, Tywysog Cymru, fel gwrthryfelwr ac aflonyddwr ar yr heddwch, fu cychwyn rhaglen dra phwysig o adeiladu cestyll yng Nghymru. Yn ystod yr ugain mlynedd nesaf dechreuodd y Brenin adeiladu nid llai nag wyth castell newydd, y mwyafrif ohonynt yn waith adeiladu mawr a rhai ohonynt ag amddiffynfeydd trefol sylweddol ynghlwm wrthynt, a chwblhawyd y gwaith adeiladu ymron i gyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod yr un cyfnod ymgymerodd y Brenin â gwaith adeiladu go sylweddol mewn pedwar castell Cymreig brodorol a syrthiodd i ddwylo'r Goron fel gwobrau rhyfel, yn ogystal ag mewn nifer o'r cestyll ar y gororau a fodolai eisoes y lansiwyd ymgyrchoedd y Saeson ohonynt.

O'r wyth castell newydd Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech oedd y mwyaf cain, gyda phob un ohonynt wedi'i leoli ar yr arfordir yng ngogledd-orllewin Cymru. Roedd dau ohonynt, sef Caernarfon a Chonwy, yn gysylltiedig â threfi newydd, wedi'u hamgáu o fewn muriau anferth a adeiladwyd ar yr un pryd â'r cestyll. Dechreuwyd ar bob un a'u cwblhau i bob pwrpas yn ystod y cyfnod 1283 hyd 1330, er bod y rhan fwyaf o'r gwaith, yn achos y mwyafrif o'r cestyll, wedi'i wneud cyn 1300.

Adeiladwyd y cestyll yn ôl un cynllun, a chanddynt nodweddion a oedd yn gyffredin i bob un ohonynt ond fe'u haddaswyd yn ôl yr angen i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol, a amrywiai o safle ar ddaear wastad ym Miwmares i bentir caregog anferth yn Harlech. Y nodwedd hanfodol ym mhob achos oedd clostir mewnol wedi'i gyfyngu o fewn llenfur uchel, y ceid mynediad iddo trwy borthdy tra amddiffynedig a oedd wedi'i atgyfnerthu â chyfres o dyrau bargodol. Y tu allan i'r llenfur roedd cyfres o amddiffynfeydd allanol, wedi'u haddasu yn ôl natur y safle ac yn cynnwys, lle'r oedd hynny'n briodol, ward allanol, llenfur allanol a ffos ddofn, a oedd naill ai'n sych neu'n llawn dŵr. Yng Nghaernarfon a Chonwy ymestynnwyd yr amddiffynfeydd gan fur anferth a amgylchynai'r dref. Unwaith eto roedd gan y mur hwn borthdai â phâr o dyrau ar eu pennau wrth y prif fynedfeydd a thyrau bargodol bob hyn a hyn.

Ni fwriadwyd i'r cestyll fod yn gadarnleoedd ar gyfer lleoli garsiynau yn unig. Canolfannau llywodraethol oeddynt, symbolau grym ac, yn achos y trefi â muriau o'u hamgylch, canolfannau a ddefnyddiwyd i ledaenu dylanwad Lloegr ledled Cymru. Y grym gyriadol y tu ôl i'r prosiect oedd y Brenin ei hun. Y Safwyad, James of St George, pensaer milwrol mwyaf yr oes, oedd yn gyfrifol am gynllunio a rheoli'r prosiect yn ystod y blynyddoedd pwysig. Y canlyniad, yn unigol a chyda'i gilydd, yw'r enghraifft fwyaf cain o bensaernïaeth filwrol sydd wedi goroesi yn dyddio o ddiwedd y 13eg ganrif yn Ewrop, gan gynnwys ym Miwmares y castell consentrig perffaith; yng Nghaernarfon yr ymgorfforiad o rym; yng Nghonwy, castell wedi'i leoli i reoli croesfan afon hollbwysig; ac yn Harlech, yn sefyll ar ei graig yn erbyn cefnlen Eryri, y castell canoloesol ar ei fwyaf pictiwrésg.

Chwaraeodd pob un o'r cestyll ei ran yn hanes y wlad ar ôl hynny, ond at ei gilydd, diolch i berthynas well rhwng Cymru a Lloegr, nodweddir eu hanes gan gyfnodau hir o esgeulustod gydag ysbeidiau achlysurol o weithgarwch dwys megis yr adeg pan y'u daliwyd ar gyfer y Brenin yn erbyn y Senedd yn ystod y Rhyfel Cartref yn yr 17eg ganrif. O ganlyniad maent i raddau helaeth wedi goroesi'n gyfan, heb yr adeiladau mwy ansylweddol a leolid gynt yn y wardiau

mewnol. Rhywbeth arall sydd wedi goroesi, am fod y rhain yn gestyll brenhinol, yw llawer o'r ddogfennaeth gyfoes sy'n rhoi dimensiwn dynol i daflu goleuni ar y stori a gedwir mewn mannau eraill mewn carreg: gwyddom yn fanwl pwy a fu'n gweithio ar y cestyll, o ble y daethant (o bob rhan o Loegr bron) a faint y cawsant eu talu.

Arysgrif, Pwysigrwydd a Dilysrwydd

Arysgrifwyd Cestyll a Muriau Trefi Edward 1 yng Ngwynedd yn Rhestr Safleoedd Treftadaeth y Byd fel safle diwylliannol o werth byd-eang eithriadol ym 1986.

Crynodeb o'r Datganiad Pwysigrwydd

Mae gwerth byd-eang eithriadol y safle yn deillio o'r ffactorau canlynol:

1. Adeiladwyd pob un ar gyfer y Brenin Edward 1, un o arweinwyr milwrol pwysicaf ei ddydd.
2. Ffurfient raglen o adeiladu cestyll brenhinol o'r pwysigrwydd mwyaf.
3. James of St George, pensaer milwrol mwyaf yr oes, oedd yn gyfrifol am gynllunio a rheoli'r prosiect.
4. Fel grŵp mae'r cestyll a'r trefi â muriau o'u hamgylch yn dangos y bensaernïaeth filwrol a'r crefftwaith mewn carreg mwyaf modern ar ddiwedd y 13eg ganrif ac yn dangos sut yr arferai Edward I ei bŵer mewn tiriogaeth wedi'i chyfeddiannu.
5. Fel gwaith brenhinol mae dogfennaeth gyfoes y cestyll a muriau'r trefi wedi'i chadw'n ofalus.
6. Maent yn cyfuno ymdeimlad gwych o bŵer â phrydferwch hynod o ran eu hadeiladwaith a'u ffurf, ac maent yn cydweddu i'r dim â'u diben ac â'r ardal naturiol oddi amgylch.
7. Er iddynt fynd trwy gyfnodau o esgeulustod wrth i'w pwysigrwydd milwrol leihau, mae'r wladwriaeth wedi gofalu am bob un o'r pedwar castell a muriau'r ddwy dref gysylltiedig yn ystod yr hanner can mlynedd i'r can mlynedd diwethaf.

Crynodeb o'r Datganiad Dilysrwydd

Mae'r safle yn cadw ei ddilysrwydd oherwydd:

1. Collodd y cestyll a muriau'r trefi eu pwysigrwydd milwrol cyn diwedd yr Oesoedd Canol ac nis newidiwyd i unrhyw raddau mawr o'u ffurf wreiddiol.
2. Yng Nghastell Caernarfon y gwnaed yr unig waith adfer yn y 19eg ganrif ac, hyd y gallwn ddweud, roedd wedi'i gyfyngu i waith i ail-greu elfennau o'r cynllun gwreiddiol a oedd wedi'u difrodi neu a oedd yn anghyflawn.
3. Mae tu allan muriau Caernarfon a Chonwy bellach yn y golwg, ar ôl i adeiladau diweddarach gael eu clirio o'r tu allan i'r muriau.
4. O dan ofal y wladwriaeth cyfyngwyd unrhyw waith adnewyddu i waith i atgyfnerthu'r adeiladwaith a oedd yn bod eisoes fel y'i canfuwyd. Lle y bu'n rhaid ymyrryd — er enghraifft, i sicrhau bod yr adeiladwaith yn sefydlog neu i ddarparu ystafelloedd i ddiwallu anghenion cyfoes — bu'r ymyriadau hynny yn rhai y gellid eu gwrth-droi heb niweidio'r adeiladwaith.

Diben y Cynllun Rheoli

Mae rheoli Safle Treftadaeth y Byd yn gynhwysfawr yn dibynnu ar ddiogelu'r henebion o fewn y ffiniau arysgrifedig; diogelu a gwella eu lleoliad; eu cyflwyno i'r cyhoedd at ddibenion addysg gydol oes; a hyrwyddo addysg ac ymchwil. Goruchwyliwyd y gwaith o baratoi'r Cynllun Rheoli hwn gan grŵp llywio gyda chynrychiolwyr o Cadw — un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru — awdurdodau lleol yr ardal, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; ac ICOMOS-UK. Cafwyd cyfraniadau gan grwpiau arbenigol a chymunedol ac asiantaethau perthnasol eraill o'r llywodraeth drwy gyfrwng arolwg o sefydliadau a gwaith ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y broses ddrafftio. Bwriedir i'r cynllun ddarparu fframwaith ar gyfer rheolaeth gynhwysfawr ar y safle.

Strwythur y Cynllun Rheoli

Mae'r Cynllun Rheoli yn cwmpasu chwe heneb mewn pedair tref. Lluniwyd y ddogfen hon i helpu'r darllenydd i ddeall y cynllun yn ei gyfanrwydd neu ddod o hyd i wybodaeth am yr henebion mewn tref benodol.

Safle Treftadaeth y Byd		*Enghreifftiau*	*Henebion a threfi penodol*	*Enghreifftiau*
Rhan 1	Mae'r rhan hon yn disgrifio Safle Treftadaeth y Byd mewn Adrannau a rennir yn Baragraffau, e.e.	1.1 1.1.1	Yn Rhannau 1 a 2, nodir llythrennau o flaen Adrannau a Pharagraffau perthnasol i ddangos eu bod yn cyfeirio at henebion mewn trefi penodol, h.y.	
Rhan 2	Mae'r rhan hon yn esbonio pwysigrwydd Safle Treftadaeth y Byd ac yn nodi gweledigaeth ar gyfer ei reoli mewn Adrannau a rennir yn Baragraffau, e.e.	2.1 2.1.1	Biwmares Caernarfon Conwy Harlech	B CA CO H
Rhan 3	Mae'r rhan hon yn nodi argymhellion gweithredu ac yn cynnwys Cofrestrau a Disgrifiadau o'r Prosiectau. Nodir Cofrestr o'r Prosiectau ar gyfer y safle cyfan gyda'r llythyren W a chaiff y Prosiectau eu nodi gyda'r llythyren W a'u rhifo, e.e.	W1	Yn Rhan 3, nodir llythrennau o flaen Cofrestrau o'r Prosiectau fel uchod. Caiff y Prosiectau eu rhifo gyda'r llythyren briodol, e.e.	B1 CA1 CO1 H1